# Ydych chi'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â diddordeb mewn ymgeisio am amser wedi'i ariannu i ymchwilio?

# Ydych chi'n ymchwilydd canser profiadol a allai weithio mewn partneriaeth ag ymchwilydd clinigol?




Ymunwch â gweminar dros amser cinio i ddarganfod rhagor am gynllun ariannu Partneriaethau Ymchwil Academaidd Clinigol (CARP) Cyngor Ymchwil Feddygol UKRI

## Beth yw cynllun CARP Cyngor Ymchwil Feddygol UKRI?

- Mae gan Gyngor Ymchwil Feddygol UKRI gynllun sy'n galluogi gweithwyr gofal iechyd cofrestredig i wneud cais am amser wedi'i ariannu i ddod yn bartner ymchwil cydweithredol i ymchwilwyr arweiniol a sefydledig ym maes iechyd cymhwysol a biofeddygol.
- Gallwch wneud cais am 20-50% o'r cyflog ar gyfer 1-3 blynedd, gan gynnwys costau'r prosiect.
- Ar gyfer 2023, gallwch wneud cais o fis Awst

## A allaf wneud cais?

Mae'r holl fanylion ar-lein, ond yn y bôn, mae'r cynllun wedi'i anelu at weithwyr gofal iechyd cofrestredig:

- sydd â PhD, MD neu gymhwyster cyfatebol
- sy'n gweithio ar lefel uwch
- lle mae dim ond hyn a hyn neu ddim o'u hamser i ymchwilio'n cael ei ariannu.

## A allaf fod yn bartner ymchwil?

- Rhaid bod gan ymgeiswyr o leiaf un partner ymchwil.
- Os oes gennych record dda o sicrhau cyllid a gwneud ymchwil o ansawdd uchel, gallech fod yn gyd-ymgeisydd.

## Ymunwch â gweminar i ddarganfod rhagor

## 1-2pm ddydd Llun, 27 Mawrth 2023

Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru wedi trefnu gweminar dros amser cinio er mwyn i ddarpar ymgeiswyr a phartneriaid ymchwil allu clywed gan:

- **Monica Busse**, Cyfarwyddwr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn sôn am sut y gallai dyfarniadau personol gefnogi eich gyrfa
- **Samantha Moore**, cynrychiolydd cynllun Cyngor Ymchwil Feddygol UKRI, yn sôn am gymhwystra a'r hyn y bydd y panel yn chwilio amdano.

**Cofrestrwch yma**

Fel arall, ebostiwch wcrc@caerdydd.ac.uk i gael rhagor o fanylion.

wcrc@cardiff.ac.uk
www.walescancerresearchcentre.org